**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19 Hydref 2009**

**RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Yn yr un modd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys mae angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân am unrhyw fenthyciadau tymor hir a newidiadau i gydbartïon yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

2 Cymeradwywyd Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli Trysorlys 2009-2010 gan yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2009. Ers eu cymeradwyo mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2009-2010 ymlaen wedi newid. Hefyd cafwyd benthyciad newydd oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a rhai newidiadau i'r rhestr o gydbartïon.

## Dangosyddion Darbodus 2009-2010

3 Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2009-2010 wedi newid yn sgil llithriant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2008-2009.

4 Mae'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol yn fesur o ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod; mae'r Ffin Weithredol yn fesur o'r uchafswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu amrywiadau yn y llif arian; ac mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod fenthyca yn seiliedig ar asesu gofynion gweithredol a risgiau allanol. Mae'r tri phrif ddangosydd wedi newid ar gyfer 2009 - 2010.

5 Mae cynnydd mewn gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd na chwblhawyd cynlluniau'n llawn yn 2008-2009 gan barhau yn 2009-2010. Yn Atodiad A rhestrir y dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth a'r dangosyddion diwygiedig.

## Benthyciadau Newydd

6 Cymerwyd benthyciad PWLB newydd i ariannu'r gronfa gyfalaf, ac mae manylion y benthyciadau i'w gweld isod.

| Prif swm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 1,000,000 | 0.84 | 05/05/2009 | 1 flwyddyn | PWLB |

## Cydbartïon a Benthyciadau

7 Pennodd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2009/10 a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Mawrth yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer cydbartion ac yn unol â Chanllaw Cynulliad Cymru ar Reoli Risg Credyd a Chydbartion (Atodiad B) y terfyn ar gyfer buddsoddiadau Amhenodedig ar £2m a oedd yn benodol ar gyfer buddsoddiadau dros 364 diwrnod.

(1) Swyddfa Rheoli Dyled y Trysorlys – terfyn £5m

(2) Awdurdodau Lleol (heblaw cyfraddau wedi'u capio) – terfyn £2m

(3) Yr holl fanciau yn y DU ac Iwerddon a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfateb). Ar hyn o bryd caiff hwn ei ddiffinio fel:

| | |
|---|---|
| Tymor byr | F1 |
| Tymor hir | A |
| Cryfder Unigol/ Ariannol | B |
| Cefnogaeth | 3 |

Terfyn - £5m

Bydd banciau â'u cyfraddau sy'n syrthio islaw'r rheiny yn y tabl uchod yn cael eu defnyddio os oes gwarant llywodraeth

ar adneuon cyfanwerthu, ac os yw'r adneuon yn syrthio o fewn telerau'r gwarant.

(4) Mae gan Gymdeithasau Adeiladu gyda chyfradd (fel y sector bancio) derfyn benthyca o £2m.

8 Ers i'r Aelodau gymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi, mae'r arian gwarged sydd ar gael i'w fuddsoddi wedi cynyddu o dan £1m i rhwng £4m a £5.5m o ganlyniad i dderbyn y Grant Ychwanegol Pensiynau. Caiff buddsoddiadau cyfredol eu cadw yn bennaf gyda banciau'r DU ond o ganlyniad i amgylchiadau abnormal y farchnad mae'r gyfradd llog ar gyfer y buddsoddiadau hyn yn isel a does gan y mwyafrif o sefydliadau mawr ddim ond diddordeb os oes isafswm o £5m yn cael ei fuddsoddi. O gofio'r amodau hyn, mae hi wedi dod yn anoddach buddsoddi a chael cyfradd llog rhesymol.

9 Y prif egwyddor ynglŷn â meini prawf buddsoddi'r Awdurdod ydi diogelwch ei fuddsoddiadau. Fodd bynnag, er mwyn goresgyn yr anawsterau cyfredol, argymhellir ymestyn y meini prawf buddsoddi i gynnwys cymdeithasau adeiladu heb gyfraddau ond efo asedau o £1biliwn neu fwy fel buddsoddiadau Amhenodedig ac i gynyddu'r terfyn ar fuddsoddiadau Amhenodedig o £2m i £4m. Mae'r meini prawf estynedig yn unol â'r strategaeth a ddilynwyd gan Gonwy ac ni fydd yn cynyddu risg yr Awdurdod o gofio amgylchiadau cyfredol y farchnad. Mae'r rhestr cydbartion estynedig ynghlwm yn Atodiad C.

## Argymhellion

10 Argymhellir bod:

(i) y Dangosyddion Darbodus diwygiedig yn cael eu cymeradwyo fel yn Atodiad A;

(ii) yr Aelodau yn cymeradwyo'r meini prawf estynedig ar gyfer buddsoddiadau ac yn nodi'r Cydbartion a restrwyd yn Atodiad C;

(iii) yr Aelodau'n nodi'r benthyciad PWLB newydd.

***ATODIAD A***

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | 2009/10<br>£ | 2010/11<br>£ | 2011/12<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 5,606,000 | 4,000,000 | 4,000,000 |
| | Dangosydd Newydd | 6,435,268 | 6,210,000 | 4,000,000 |
| 2 | Nawdd Cyfalaf Gofynnol | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 20,522,000 | 22,829,000 | 24,934,000 |
| | Dangosydd Newydd | 19,921,183 | 24,537,391 | 26,648,934 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 22,522,000 | 24,829,000 | 26,934,000 |
| | Dangosydd Newydd | 21,921,000 | 26,537,000 | 28,649,000 |
| 4 | Ffin Weithredol | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 20,522,000 | 22,829,000 | 24,934,000 |
| | Dangosydd Newydd | 19,922,000 | 24,538,000 | 26,649,000 |
| 5 | Cymhareb Costau Ariannol i Lif Ariannol Refeniw Net | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 6.18% | 7.73% | 8.41% |
| | Dangosydd Newydd | 5.67% | 6.90% | 8.05% |
| 6 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar Gyfraniadau gan yr Awdurdodau cysylltiedig | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 123,325 | 691,207 | 1,202,274 |
| | Dangosydd Newydd | 141,576 | 826,862 | 1,477,158 |

***ATODIAD B***

RHEOLI RISG CREDYD A CHYDBARTION

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Ganllaw Buddsoddi ym mis Mawrth 2004, ac mae hyn yn ffurfio strwythur ar gyfer polisi'r Awdurdod isod.

Prif fwriad y Canllaw ydi cynnal y gofyn cyfredol i Awdurdodau fuddsoddi'n ddarbodus, ac y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd cyn cynnyrch. Er mwyn hwyluso'r amcan hon, mae'r canllaw yn gofyn i'r Awdurdod ystyried cyhoeddiad CIPFA "Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes". Mabwysiadodd y Cyngor y Cod ar 15 Rhagfyr 2003 a bydd yn defnyddio ei egwyddorion mewn perthynas â'r holl weithgarwch buddsoddi. Yn unol â'r Cod, mae'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol wedi llunio arferion rheoli trysorlys. Mae angen cymeradwyo'r TMP 1(5), sy'n ymdrin â pholisi cydbartion buddsoddi, bob blwyddyn.

**1. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol – Buddsoddiadau a Gymeradwywyd**

Gofynion allweddol y Cod a'r canllaw buddsoddi ydi pennu strategaeth fuddsoddi flynyddol, fel rhan o'i strategaeth trysorlys flynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol, gan amlygu a chymeradwyo'r canlynol:

(i) Canllawiau'r strategaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau, yn enwedig buddsoddiadau amhenodedig.

(ii) Yr egwyddorion i'w defnyddio i bennu'r cyfnodau uchafswm y gellir ymrwymo arian.

(iii) Buddsoddiadau penodedig fydd yr Awdurdod yn ei ddefnyddio. Mae'r rhain yn fuddsoddiadau diogelwch uchel a hylifedd uchel mewn sterling a gydag aeddfedrwydd o ddim mwy na blwyddyn.

(iv) Buddsoddiadau amhenodedig, yn egluro'r goblygiadau risg ehangach, yn amlygu'r mathau cyffredinol o fuddsoddiadau y gellir eu defnyddio a therfyn i'r symiau cyffredinol o gategorïau gwahanol y gellir eu cadw ar unrhyw adeg.

Y polisi buddsoddi bwriedig ar gyfer yr Awdurdod ydi:

**(i)** **Canllawiau Strategaeth** – Mae'r prif ganllawiau strategaeth yng nghorff y datganiad strategaeth trysorlys.

**(ii)** **Cyfnodau Buddsoddi** – Polisi'r Awdurdod ydi benthyca arian am uchafswm o 364 diwrnod.

**(iV)** **Buddsoddiadau Penodedig** – Buddsoddiadau sterling yw'r buddsoddiadau hyn gydag aeddfedrwydd o ddim mwy na blwyddyn. Asedau risg isel yw'r rhain lle mae'r posibilrwydd o golli prif incwm neu incwm buddsoddi yn isel. Byddai'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau efo:

Swyddfa Rheoli Dyled y Trysorlys
Awdurdodau Lleol Eraill (heblaw cyfraddau wedi'u capio)
Yr holl fanciau yn y DU ac Iwerddon a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da

(v) **Buddsoddiadau Amhenoedig –** Mae buddsoddiadau amhenodedig yn golygu unrhyw fath arall o fuddsoddiad (h.y. heb eu diffinio fel Penodedig uchod). Mae hyn yn cynnwys Cymdeithasau Adeiladu gyda dim cyfraddau a benthyca am fwy na 364 diwrnod. Y terfyn ar gyfer buddsoddiadau amhenodedig ydi £2m ac mae'n cynnwys benthyca am fwy na 364 diwrnod yn unig.

***ATODIAD C***

**BUDDSODDIADAU CYDBARTÏON**

**Cyfyngiad y Banciau o £5m - Terfyn**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, Royal Bank of Scotland, Abbey, Bank of Scotland, Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Allied Irish Bank, Clydesdale, Ulster Bank a Citibank.

**Cyfyngiad Llywodraeth Ganol o £5m – Terfyn**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Cyfyngiad Awdurdodau Lleol o £2m – Terfyn**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i derfyn treth y cyngor a praeseptau dan Adran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. h.y. Wedi'i gadw yr un fath yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Cymdeithasau Adeiladu (cyfradd) Terfyn £2m**

Coventry a'r Nationwide

**Newydd**
**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) -£2m /9mis Terfyn**
Chelsea, Cumberland, Kent Reliance, Leeds, National Counties, Newcastle, Norwich & Peterborough, Nottingham, Principality, Progressive, Skipton, Stroud & Swindon, West Bromwich a Yorkshire.